# Archwiliad Platennau Hematoleg 2022



Yn cael ei adrodd gan y Tîm Iechyd Gwaed, Gwasanaeth Gwaed Cymru

ar ran y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)

**Mawrth 2023**

## Crynodeb Gweithredol

### Cefndir

Perfformiwyd yr archwiliad hwn i asesu cydymffurfiaeth â chanllawiau Cymdeithas Hematoleg Prydain ar gyfer trallwyso platennau (**1**). Cynhaliwyd yr archwiliad dros gyfnod o bythefnos ym mis Tachwedd 2022, a gofynnwyd am gynrychiolaeth gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Cafodd cleifion dros un ar bymtheg oed gydag anhwylderau hematolegol eu cynnwys yn y data hwn. Yn ogystal, anfonwyd arolwg at staff sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad, er mwyn casglu rhagor o wybodaeth ddefnyddiol.

Tynnwyd y safonau ar gyfer yr archwiliad o ganllawiau Cymdeithas Hematoleg Prydain ar gyfer defnyddio trallwysiad platennau, ac adroddwyd y canlyniadau fel canran yn erbyn pob un o'r safonau canlynol:

### Canlyniadau

**Safon Platennau 1:** Mewn cleifion ag achos cildroadwy o fethiant mêr esgyrn a dim ffactorau risg eraill o ran gwaedu, mae'r trothwy ar gyfer proffylacsis yn gyfrif platennau o 10 x 109 /L

**Canfyddiad yr archwiliad: Cydymffurfiaeth - 75%:**

**Safon Platennau 2:** Pan gaiff platennau eu rhagnodi ar gyfer defnydd proffylactig, ni ddylai hyn fod yn fwy nag un dos therapiwtig i oedolion

**Canfyddiad yr archwiliad: Cydymffurfiaeth - 91%:**

**Safon Platennau 3:** Nid yw cleifion sydd â methiant mêr esgyrn cronig yn cael trallwysiadau platennau proffylactig yn rheolaidd

**Canfyddiad yr archwiliad: Cydymffurfiaeth - 100%:**

**Safon Platennau 4:** Cyn y broses, os nad oes ffactorau risg ychwanegol yn bresennol, mae'r trothwy priodol ar gyfer cyfrif platennau fel y nodir yng nghanllawiau platennau Cymdeithas Hematoleg Prydain.

**Canfyddiad yr archwiliad: Cydymffurfiaeth - 100%:**

**Safon Platennau 5**: Nid oes angen trallwysiad platennau ar gleifion cyn cael biopsi mêr esgyrn

**Canfyddiad yr archwiliad: Cydymffurfiaeth - 100%:**

## Casgliadau

Cafodd 85 cofnod o drallwysiad platennau eu dychwelyd o 5 allan o'r 6 Bwrdd Iechyd ar draws Cymru. Yn anffodus, oherwydd problemau staffio difrifol, doedd un bwrdd iechyd ddim yn gallu cyflwyno ffurflenni. Mae canlyniadau'r archwiliad hwn yn dangos gwelliant parhaus o ran glynu wrth ganllawiau ar gyfer defnyddio platennau mewn cleifion Hematoleg, o'i gymharu ag archwiliad BHNOG a berfformiwyd yn 2020 **(2)** a data Archwilio Cymharol Genedlaethol (NCA) y DU o 2017 (**3**).

Ond roedd ymatebion o'r arolwg yn tynnu sylw at feysydd y dylid eu targedu ar gyfer gwelliant pellach, yn arbennig argaeledd **canllawiau ysbytai lleol,** a ddylai:

- Adlewyrchu canllawiau cenedlaethol sy'n nodi nad oes angen trallwysiadau platennau proffylactig:
  (i) Cyn sugno neu dryffinio mêr esgyrn
  (ii) Mewn cleifion sefydlog sydd â methiant mêr esgyrn cronig.
- Dynnu sylw at y ffaith na ddylid defnyddio trallwysiadau proffylactig dos dwbl fel mater o drefn
- Ystyried faint y claf, a'r cyfrif platennau targed, cyn cael trallwysiad platennau
- Dynnu sylw at bwysigrwydd perfformio asesiadau TACO
- Ystyried dolen i algorithm platennau Gwasanaeth Gwaed Cymru, sydd ar gael ar wefan BHNOG .

### Addysg

- Er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus, mae grwpiau pwnc delfrydol i'w targedu ar gyfer hyfforddiant yn cynnwys myfyrwyr meddygol, cofrestryddion arbenigol sy'n newydd i'r swydd, a staff nyrsio hematoleg sy'n gyfrifol am archebu cydrannau gwaed.

## Cyfeirnodau:


1. Estcourt, L.J, Birchall, J. Allard, S., Bassey S. J., Hersey, P., Kerr, J. P., Mumford, A. D., Stanworth,
   S. J., Tinegate, H. (2017) Guidelines for the use of platelet transfusions, British Journal of Haematology, 176(3) 365-394
2. Gwefan y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed
   Cenedlaethol (BHNOG).
   https://bhnog.wales.nhs.uk/home-page/platelets/
3. National Comparative Audit of blood transfusion 2017 Audit of red cell and platelet transfusion in adult haematology patients